# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Beverley Hopkins | Adran Etholiadol: | Glandŵr |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais ddwy gymhorthfa bob mis yn fy ward a mynychais gyfarfodydd PACT rheolaidd ar gyfer tair is-adran berthnasol yr heddlu.

Bûm yn aelod o Gorff Llywodraethwyr Ysgol Plasmarl ac rwy'n parhau'n aelod ar adeg ysgrifennu hwn. Bûm hefyd yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol yr Hafod lle bûm yn gyfrifol am logi cyfleusterau a chynnal grŵp mamau a phlant bach.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 5/9 | 56% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 0/3 | 0% |
| Y Cyngor | 15/15 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Dattblygu | 4/8 | 50% |
| CYFFREDINOL | 24/35 | 69% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Ar adeg ysgrifennu hwn roeddwn yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Hafod ac rwy'n parhau yn y swydd hon.

Mynychais gyfarfodydd PACT. Roedd gennym dair is-adran yr heddlu yn ein ward.

Ar adeg ysgrifennu hwn roeddwn yn aelod o Gorff Llywodraethu Plasmarl ac rwy'n dal i fod yn aelod.

Mynychais gyfarfodydd Canolfan Gymunedol yr Hafod a chyfarfodydd Cyfeillion Parc yr Hafod.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Goruchwyliais y gwaith o weddnewid Parc Stryd Davis ym Mhlasmarl.

Bûm yn gweithio gyda rheolwyr Stadiwm Liberty ar y cynllun teithio mewn ymgais i ddatrys y problemau parcio parhaus.

Bûm yn ymwneud â chyflwyno mesurau tawelu traffig ar Heol Trewyddfa. I dalu am y gwaith, dynodwyd swm o arian o gronfa amgylcheddol cynghorwyr Dinas a Sir Abertawe ar gyfer Adran Etholiadol Plasmarl.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Cymerais ran yn y cyrsiau hyfforddi canlynol:

25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol

Derbyniais yr hyfforddiant canlynol ar gyfer llywodraethwyr hefyd:

08/10/2013 Deall Data Ysgol
14/01/2014 Llywodraethwr Newydd
09/06/14 Hyfforddiant Amddiffyn Plant (Ysgol Gynradd yr Hafod)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Bûm ar gael bob amser i etholwyr gysylltu â mi ac rwyf bob amser wedi gweithredu dros fy nghymuned ar ran pobl yr Hafod, Glandŵr a Phlasmarl.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 14.05.14 |